

DAVIES, ROBERT ('Bardd Nantglyn'; 1769 - 1835), bardd a gramadegwr

**Enw:** Robert Davies

**Ffugenw:** Bardd Nantglyn

**Dyddiad geni:** 1769

**Dyddiad marw:** 1835

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** bardd a gramadegwr

**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd

**Awdur:** Thomas Parry

Ganwyd ym mhlwyf Nantglyn, sir Ddinbych. Prentisiwyd ef yn deiliwr. Aeth i Lundain yn 1800, ac am y pedair blynedd neu bump y bu yno bu'n amlwg iawn gyda Chymdeithas y Gwyneddigion, ac yn fardd ac ysgrifennydd iddi. Yr oedd yn un o gefnogwyr mwyaf selog eisteddfodau'r Gwyneddigion a'r eisteddfodau taleithiol yn niwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg. Ef a enillodd am awdl ar y testun, 'Cariad i'n Gwlad,' yng Nghaerwys yn 1798. Yr oedd yn cydfeirniadu ag '[Iolo Morganwg](#)' yng Nghaerfyrddin yn 1819. Enillodd yn Wrecsam yn 1820 am awdl ar farwolaeth Siôr III. Enillodd wobrau hefyd ym Miwmares yn 1832. Ond yr hyn a barodd fwyaf o sôn amdano yngl n â'r eisteddfod oedd iddo ef a [William Owen Pughe](#) a '[Dewi Silin](#)' wobrwyo awdl [Edward Hughes](#), Bodffari, yn lle un '[Dewi Wyn](#)' ar y testun 'Elusengarwch' yn Ninbych yn 1819. Yn 1798 cyhoeddodd gasgliad o'i waith o dan y teitl *Cnewyllyn mewn Gwisg*, ac yn 1803 *Barddoniaeth*, sef ei waith ef ei hun gan mwyaf, ond yn cynnwys hefyd rai cerddi gan eraill o feirdd y cyfnod. Yna yn 1827 cyhoeddodd ei brif weithiau yn [Diliau Barddas](#)<sup>[?]</sup>. Ei ddarn gorau a mwyaf adnabyddus yw'r ddychangerdd ffraeth, 'Ewyllys Adda.' Ceir ei waith fel gramadegwr yn *leithiadur neu Ramadeg Cymraeg*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1808, ac ail argraffiad yn 1818 a thrydydd yn 1826. Y mae olion gramadegau'r penceirddiaid a gramadeg [Pughe](#) ac *Egluryn Phraethineb [Henri Perri](#)* ar y gwaith hwn, ond y mae llawer ohono hefyd yn ffrwyth myfyrdod 'Bardd Nantglyn' ei hun. Ar ddiwedd y llyfr ceir 'Rheolau Barddoniaeth Gymraeg.' Gwyddys mai '[Dafydd Ddu Eryri](#)' oedd awdur gwreiddiol yr adran hon, ond bod 'Bardd Nantglyn' wedi newid tipyn arni a'i chyhoeddi heb gydnabod '[Dafydd Ddu](#)' o gwbl. Bu farw 1 Rhagfyr 1835.

## Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

## Ffynonellau

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 488

*Y Traethodydd*, 1854, 33

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Robert Davies](#)

## Gweithiau

Gwyneddigion, *Cyhoeddiadau Cymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain, am y flwyddyn, 1800* (Llundain 1801)

Robert Davies, *Ieithiadur neu ramadeg Gymraeg: sef, cyfarwyddyd hyrwydd i ymadroddi ac ysgrifenu yr iaith Gymraeg yn gywir a rheolaidd* (Dinbych 1818)

William Thomas, '*Traeth-Odl ar Ewyllys Adda*,' *Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol* (Caerfyrddin 1851), tt.30-33

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [14641605](#)

Wikidata: [Q18325718](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

